| | | |
|---|---|---|
| **Llinyn:** | Diogelwch | |
| **Cyfnod Allweddol:** | CA3 | |
| **Gwers:** | Pictiwr Peryg | |

Mae Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cadw hawliau plant a phobl ifanc i gael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hecsbloetio. Mae potensial i bob plentyn ifanc fod â risg o gael eu cam-drin yn rhywiol. Mae gan ysgolion rôl ganolog i'w chwarae o ran lleihau'r risg hwn. Drwy egluro nodweddion perthnasau diogel ac iach gall swyddogion helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn gallu adnabod y risgiau posibl, cadw'n ddiogel a chwilio am help os oes angen.

Dylid cyflwyno'r wers perthnasau diogelach fel rhan o raglen addysg rhyw a pherthnasau ABCh yr ysgolion. Fe ddylai fod yn gyson â pholisi addysg rhyw yr ysgol a'r fframwaith gwerthoedd y cytunwyd arno ar gyfer yr SPRE. Sicrhau bod y wers yn briodol ar gyfer anghenion dysgwyr o ran eu hoedran, aeddfedrwydd, iaith/delweddau a ddefnyddir a'r ddealltwriaeth sydd ei angen.

Mae mwy o wybodaeth ar addysgu materion sensitif ar gael ar y wefan ABCh drwy ddilyn y ddolen i 'addysgu am faterion sensitif' ar

http://wales.gov.uk/psesub/home/holisticpse/delivery/teachingsensitiveissues/?lang=en

## NOD

- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am beryglon secstio

## AMCANION FFRAMWIATH ABCh 2008

- Defnyddio TGCh mewn modd diogel a chyfrifol, yn dilyn arferion diogel S(TGCh)
- Dechrau trafod ymddygiad mewn perthnasau personol S (WWO)
- Datblygu parch tuag at eu hunain ac eraill R(AC)
- Deall nodweddion perthnasau diogel a rhai a allai fod yn ymosodol R (H&E)

## LLYTHRENNEDD / RHIFEDD

Mae'r wers hon yn cynnwys yr agweddau canlynol o'r fframwaith llythrennedd / rhifedd

- L (O) siarad (sp)
- L (O) gwrando (l)
- L (O) cydweithio a thrafod (c & a)

## AMCANION GWERS

- Deall bod canlyniadau i ddewisiadau
- Bod yn ymwybodol o'r gyfraith mewn perthynas â secstio
- Datblygu strategaethau i gadw'n ddiogel

## GEIRIAU ALLWEDDOL

Secstio, delweddau anweddus, dewis, camdriniaeth

## DULL

- Sicrhau bod y cysylltiad â'r dysgu blaenorol yn cael ei egluro
- Cytuno ar y rheolau euraidd
- Rhoi amlinelliad clir o'r cytundeb ystafell ddosbarth am gyfrinachedd
- Gweithgaredd ragarweiniol ystafell ddosbarth – Ydych chi wedi? Datganiadau
- Egluro – arddangos yr amcanion dysgu a'r geiriau allweddol
- Diffiniad dosbarth cyfan o secstio
- Chwarae DVD Rhan 1
- Gweithgaredd grŵp fan ddefnyddio'r templed anfon/dileu
- Chwarae DVD rhan 2
- Trafodaeth ddosbarth er mwyn cadarnhau'r gyfraith yn ymwneud â secstio
- Gweithgaredd bwrdd syniadau er mwyn nodi bod canlyniadau i ddewisiadau
- Cyflawn

## ADNODDAU

- PowerPoint Pictiwr Peryg
- DVD Pictiwr Peryg
- Geiriau Allweddol
- Diffiniad Secstio
- Taflen waith anfon/dileu
- Cardiau canlyniadau

## GWEITHGAREDDAU

### CYFLWYNIAD

- Sicrhau bod y cysylltiad â'r wers ddiwethaf yn cael ei egluro
- Cytuno ar y Rheolau Euraidd
- Rhoi amlinelliad clir o'r cytundeb ystafell ddosbarth am gyfrinachedd
- Gweithgaredd dosbarth cyfan, gwnewch y weithgaredd 'sefwch i fyny os'
- Eglurwch – dangoswch yr amcanion dysgu a'r geiriau allweddol

### PRIF WEITHGAREDDAU

- Gweithgaredd dosbarth cyfan, trafodwch y diffiniad o secstio
- Dangoswch ran o'r DVD (1.58 eiliad)
- Mewn grwpiau, gwnewch yr ymarfer anfon / dileu
- Adborth gan y dosbarth
- Gwyliwch ail ran y DVD (6.36 eiliad)
- Amser cwestiynau i'r dosbarth cyfan am secstio a'r Gyfraith
- Ymarfer grŵp i ystyried y canlyniadau cymdeithasol, emosiynol a chyfreithiol o secstio

## ADOLYGU/CYFLAWN

- Fel trafodaeth dosbarth cyfan, ailadroddwch yr amcanion allweddol
- Trafodwch gyda'r dosbarth at bwy y gallant fynd am help

## AWGRYMIADAU AR GYFER GWEITHGAREDDAU DILYNOL I'R ATHRO/ATHRAWES

Am fwy o fanylion ac adnoddau ewch i adran athrawon y wefan www.schoolbeat.org